

Beth sydd angen i chi ei wybod os oes cyhuddiad wedi'i wneud yn eich erbyn



Beth yw amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed?

Efallai bod rhywun wedi dweud wrth yr adran gwasanaethau cymdeithasol eich bod chi wedi brifo oedolyn sy'n agored i niwed neu wedi ei roi mewn perygl drwy eich gweithredoedd neu esgeulustod.

Mae cyfrifoldeb ar y Gwasanaethau Cymdeithasol i ystyried pob atgyfeiriad, ac maent yn gwneud hyn drwy'r Broses Amddiffyn Oedolion sy'n Agored i Niwed (POVA).

Pwy all fod yn oedolyn sy'n agored i niwed?

Y diffiniad o oedolyn sy'n agored i niwed yw 'person 18 oed neu hŷn sydd angen, neu a allai fod angen, gwasanaethau gofal cymunedol oherwydd anabledd meddyliol neu anabledd arall, oedran neu salwch ac nad yw o bosibl yn gallu gofalu am ei hun, neu ddim yn gallu amddiffyn ei hun rhag achosion difrifol o niwed neu ecsplotiaeth'.

Mae oedolion sy'n agored i niwed yn cynnwys pobl ag anableddau dysgu, problemau iechyd meddwl, pobl hŷn a phobl anabl, yn arbennig pan fo'r sefyllfa'n gymhleth yn sgîl ffactorau fel eiddilwch corfforol, salwch cronig, nam ar y synhwyrau, ymddygiad heriol, problemau cymdeithasol ac emosiynol

neu gamddefnyddio sylweddau.

Cyfrinachedd

Mae'n bosibl y bydd rhaid rhannu'r wybodaeth ag asiantaethau eraill.

Pa ran fydd gennyf i?

- Mae'n bosibl y byddwch yn rhan o unrhyw ymchwiliad
- Gallech gael eich gwahardd neu gellid cyfyngu ar eich dyletswyddau tra bod yr ymchwiliad yn mynd rhagddo.
- Gallech gael eich disgyblu.

Os ydych yn aelod o deulu sydd â chyfrifoldebau gofalu, efallai y cynigir asesiad gofalgwyr i chi i ganfod a oes angen gwasanaethau ychwanegol arnoch i'ch cefnogi.

Ble alla i gael cymorth?

Gall gweithwyr gael cymorth gan yr adran adnoddau dynol, undeb fasnach neu sefydliad staff.

Gall pobl eraill fel teulu a ffrindiau y mae cyhuddiad wedi'i wneud yn eu herbyn gysylltu â chyfreithiwr.

Beth sy'n digwydd ar ôl yr ymchwiliad?

Ar gyfer gweithwyr – Os yw'r cyhuddiad yn cael ei gadarnhau, gallech gael eich cyfeirio at yr Awdurdod Diogelu

Annibynnol a/neu unrhyw gorff
proffesiynol.

Ar gyfer teulu/ffrindiau ac eraill sy'n rhan o'r
broses – efallai y bydd newidiadau i'r
ffordd y caiff gofal ei ddarparu a gellir ei
fonitro drwy ddefnyddio cynllun
amddiffyn oedolion.

Ewch i...

www.caerdydd.gov.uk

Manylion Cyswllt

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am
amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed,
cysylltwch â:

Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed (POVA)
ar 029 2053 6436
Fodd bynnag, ni allwn drafod achosion
unigol.